

Apêl Argyfwng Indonesia

Gobeithiwn fedru dangos cefnogaeth yr ofalaeth i'r miloedd lawer sydd wedi'u heffeithio gan y daeargryn grymus a achosodd tswami arswydus a gadael dinistr enfawr ar ei ôl yn Ynys Sulawesi yn Indonesia yn ddiweddar. O ganlyniad, mae bywydau cymaint o bobl mewn perygl ac maent angen cymorth ar frys.

Bwriadwn gyfrannu trwy law *Tearfund* ac mae amlenni melyn pwrpasol (Apêl Argyfwng) ar gael ymhob eglwys os dymunwch wneud hynny. Gwnewch unrhyw sic yn daladwy i **"GOFALAETH BRO ALED"**, os gwelwch yn dda, ac os ydych yn talu treth, byddai gwerth eich cyfraniad hyd yn oed yn fwy os medrwch lenwi'r ffurflen rhodd cymorth sy'n amgaeedig hefo'r amlen. Byddem yn ddiolchgar petaech yn rhoi yr amlen i drysorydd eich eglwys neu i Mair Owen, Bryn Goleu, Llansannan, Dinbych LL16 5LF **cyn diwedd Hydref**, os gwelwch yn dda, fel y medrwn anfon yr arian ymlaen fel un cyfraniad gan Eglwysi Bro Aled mor fuan ag sydd bosibl wedi hynny. Diolch ymlaen llaw i chi am eich cefnogaeth.



Pecyn Dydd Gweddï Byd-eang y Chwiorydd

Os oes unrhyw eglwys heb dderbyn y pecyn blynyddol er mwyn medru archebu'r taflenni a phosteri ar gyfer y Gwasanaeth Dydd Gweddï Byd-Eang y Chwiorydd 2019, plis cysylltwch â Mair.

Gofynnir yn garedig i chi archebu'r deunydd **erbyn Tachwedd 7fed** os ydych am inni gasglu'r pecyn ar eich rhan. (Bydd angen i chi nodi ar y daflen y bydd rhywun o Eglwysi Bro Aled yn casglu eich pecyn, a gadael i Mair wybod hefyd, os gwelwch yn dda.)

I ddod

- **TAITH ADNODDAU NADOLIG Y CYNGOR YSGOLION SUL** yn ymweld â Chapel Trefnant nos Fercher, Tachwedd 14eg rhwng 7-9 yr hwyr. Bydd cyfle ar y noson i brynu cardiau Nadolig newydd, a hefyd llyfrau anrhegion Nadoligaidd i blant gan gynnwys nifer o lyfrau bargaen am hanner pris neu lai. Bydd cyfle hefyd i weld a phrynu dewis dethol o werslyfrau ysgol Sul a llyfrau defosiynol newydd.
- **CYNHADLEDD UNDYDD DYDD GWEDDÏ BYD-EANG Y CHWIORYDD** yng Nghapel Penbryn, Treffynnon dydd Iau, Tachwedd 15fed o 10.00 – 1.00.
- **MAETH – CEFNOGAETH GRISTNOGOL I AMAETHWYR.** Cyfarfod sy'n agored i bawb yng Nghanolfan Bryn-y-Groes, Y Bala pnawn dydd Sadwrn, Tachwedd 17eg am 2.00. Siaradwyr: Ifan Mason Davies, Goginan ac Aled Jones, Dirprwy Lywydd NFU Cymru. Bydd bwyd ar ôl y cyfarfod – am ddim!
- **CYMDEITHAS LLANSANNAN:** "Profiadau Patagonia" – noson yng nghwmni Mali Elwy yn Festri Llansannan nos Lun, Tachwedd 19eg am 7:30. Croeso cynnes i bawb.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, Hydref 28^{ain}, 2018

DILYNWCH NI AR TWITTER:
@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Mae hi'n ddydd Sul olaf mis Hydref ac mae hynny'n golygu os ydych wedi derbyn y Llais Bro Aled hwn ar bapur yn eich capel lleol, eich bod wedi llwyddo i gofio troi'r clociau (yn ôl!) neithiwr ac wedi cyrraedd yr oedfa ar yr amser cywir. Os ydych yn darllen hwn yn electroneg cyn dydd Sul, yna gallwch ddiolch i mi eto am eich atgoffa o'r gwaith pwysig sydd angen ei wneud nos Sadwrn! Dwi'n siŵr fy mod wedi ysgrifennu am droi'r clociau yn y gorffennol, ond bob tro y mae angen mynd at y dasg arbennig hon mae'n fy nharo fel un o'r arferion rhyfedd hynny sy'n dod i'n rhan fel oedolion. Meddyliwch – mae'n achlysur sydd wedi codi ddwywaith bob blwyddyn ers i mi allu cofio, ond eto mae dal angen fy atgoffa ei fod yn digwydd!

Nid cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith fod cymaint o'r Beibl yn atgoffa pobl Dduw mewn gwahanol ffyrdd. Yn yr Hen Destament, roedd Cyfraith Duw yn atgoffa'r bobl yn gyson o'u pechod a'u hangen am faddeuant trwy'r cyfarwyddiadau manwl am aberthau a sut oeddynt i addoli Duw sanctaidd. (Hebreaid 10:3-4) Ac os edrychwn ar nifer o'r Salmau, cyfeiriadau at y ddihangfa o'r Aifft trwy'r Exodus a geir er mwyn i bobl yr Arglwydd gofio pwy a'u hachubodd. E.e. 'Ond gwaredodd ef hwy er mwyn ei enw, er mwyn dangos ei rym. Ceryddodd y Môr Coch ac fe sychodd, ac arweiniodd hwy trwy'r dyfnder fel pe trwy'r anialwch. Gwaredodd hwy o law'r rhai oedd yn eu casáu, a'u harbed o law'r gelyn.' (Salm 106:8-10)

Beth amdanom ni heddiw felly? Beth yw'r pethau holl bwysig y mae angen i ni gael ein hatgoffa ohonynt? O droi at y Testament Newydd, gwelwn bwyslais ychwanegol, ond nid annisgwyl yn cael ei amlygu. Marwolaeth ac atgyfodiad yr Arglwydd Iesu yw prif destun y cofio yno oherwydd mai dyna'r unig ffordd i bechaduriaid gael eu cymodi â Duw. Pan mae Paul yn agosáu at ddiwedd ei lythyr cyntaf at y Corinthiaid, mae am eu hatgoffa o'r Efengyl. A beth yw'r Efengyl? 'Oherwydd, yn y lle cyntaf, traddodais i chwi yr hyn a dderbyniais: i Grist farw dros ein pechodau ni, yn ôl yr Ysgrhythurau; iddo gael ei gladdu, a'i gyfodi y trydydd dydd, yn ôl yr Ysgrhythurau; ac iddo ymddangos i Ceffas, ac yna i'r Deuddeg.' (1 Corinthiaid 15:3-5)

Yr hyn y mae angen i bob Cristion ei gofio yw'r hyn y mae Crist wedi ei gyflawni dros ei bobl. Does dim gobaith i ni hebddo Ef, ond i bawb sy'n credu ynddo Ef mae bywyd tragwyddol wedi ei roi'n rhodd i'r annheilwng. Gweddïwn am gymorth yr Arglwydd i gofio, ac am nerth i geisio Crist mewn ffydd ac edifeirwch.

Rhodri

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (7fed), os gwelwch yn dda.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 28^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn pregethu.
- Mercher – 31^{ain} ➤ **Torri Syched**– grŵp tŷ (y merched) yn cyfarfod am 7.30.
- Gwener – Sul (2^{il} – 4^{ydd}) ➤ **Penwythnos Ieuenctid (Bl. 7-11)** yng Ngholeg y Bala. Bydd £20 o ostyngiad i bob unigolyn fydd yn mynychu, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Os nad ydych wedi archebu lle, gallwch wneud hynny ar-lein: colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg, neu ffoniwch 01678 520565 i gael ffurflen bapur.
- Sadwrn – 3^{ydd} ➤ **Ysgol Sadwrn DAWN Cymru** o 10.00 – 3.30 yng Nghapel y Bedyddwyr Alfred Place, Alfred Place, Aberystwyth, SY23 2BS. Bydd tair darlith, amser o addoliad a gweddi, a chyfle i rannu cymdeithas.
- Sul nesaf – 4^{ydd} ➤ **Bore Bro Aled**
Oedfa i'r teulu cyfan **am 10.30 y bore** – y tro hwn yn Llanefydd. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Neuadd yn ystod y gwasanaeth a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mercher – 7^{fed} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Iau – 8^{fed} ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.00.
- Gwener – 9^{fed} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Sul canlynol – 11^{eg} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 28^{ain} ➤ Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yno hefyd y bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith am 2.00.
- Mawrth – 30^{ain} ➤ Cynhelir Oedfa Diolchgarwch Capel Cefn Meiriadog am 7.00 gyda'r Parch. Rhun Murphy yn pregethu ac fe werthfawrogir cyfraniadau tuag at y Banc Bwyd. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 4^{ydd} ➤ **Bore Bro Aled** – Oedfa i'r teulu cyfan **am 10.30 y bore** – y tro hwn yn Llanefydd.
- Sul canlynol – 11^{eg} ➤ Bydd aelodau Capel Cefn Meiriadog yn mynd i Gartref Yr Hen Ddeondy am 10.30 i gynnal gwasanaeth byr. Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 28^{ain} ➤ Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg, a'r oedolion am 11.10.
- Sul nesaf – 4^{ydd} ➤ Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- **Bore Bro Aled** – Oedfa i'r teulu cyfan **am 10.30 y bore** – y tro hwn yn Llanefydd.
- Mercher – 7^{fed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (4ydd)**, os gwelwch yn dda.
- Sul canlynol – 11^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Byddwn yn ymgynnull wrth y gofeb ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio am 10.50. Ni fydd Ysgol Sul i'r oedolion.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 28^{ain} ➤ Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 4^{ydd} ➤ **Bore Bro Aled** – Oedfa i'r teulu cyfan **am 10.30 y bore** – y tro hwn yn Llanefydd.
- Sul canlynol – 11^{eg} ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 28^{ain} ➤ Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00 a bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 4^{ydd} ➤ **Bore Bro Aled** – Oedfa i'r teulu cyfan **am 10.30 y bore** – y tro hwn yn Llanefydd.
- Sul canlynol – 11^{eg} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Groes a Henllan am 10.00 a bydd Ysgol Sul yn y ddwy eglwys am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 28^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Iau – 1^{af} ➤ Cynhelir Oedfa Diolchgarwch Capel Cefn Berain am 7.00 gyda'r Parch. Elfed ap Nefydd Roberts yn pregethu. Croeso i bawb.
- Sul nesaf – 4^{ydd} ➤ **Bore Bro Aled** – Oedfa i'r teulu cyfan **am 10.30 y bore** – y tro hwn yn Llanefydd.
- Sul canlynol – 11^{eg} ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.